**PWYLLGOR RHANBARTH Y CANOLBARTH**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD**

**Cyflwyniad**

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad. Mae Rheol Sefydlog 10 yn nodi ardaloedd daearyddol y pwyllgorau ac mae hefyd yn datgan eu cylch gwaith.

2. Mae Glyn Davies wedi cadeirio'r Pwyllgor ar gyfer y sesiwn a ddechreuodd ym mis Mai 1999. Bydd y gadeiryddiaeth yn cael ei throsglwyddo i Gadeirydd newydd o fis Gorffennaf 2000. Tan 30 Ebrill 2000 yr aelodau eraill oedd Mick Bates, Nicholas Bourne, Cynog Dafis, Elin Jones, Alun Michael a Kirsty Williams. Cymerodd Delyth Evans le Alun Michael o 1 Mai 2000. Dewisodd y Llywydd, yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas beidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor. Erbyn mis Mehefin roedd y Pwyllgor wedi cynnal 6 chyfarfod a 2 sioe ben ffordd.

**Y dull o weithio**

3. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn awyddus i ddatblygu dull o weithio sy'n agored a chyfranogol. Roedd pob un o'i gyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd. Gwelir crynodeb o'r eitemau a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn Atodiad A. Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd nifer o gyrff allanol i gymryd rhan yn ei drafodaethau, er enghraifft, Partneriaeth y Canolbarth, Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

4. Mewn pob cyfarfod mae'r Pwyllgor wedi cynnwys eitem fel y gall aelodau o'r cyrff cyhoeddus a lleol dynnu sylw Aelodau yn fyr at fater lleol neu enghraifft o waith arloesol sy'n cael ei wneud yn y rhanbarth. Cafwyd amrywiaeth dda o faterion a oedd yn cynnwys, er enghraifft, pryder ynghylch penderfyniadau cynllunio; awyrennau yn hedfan yn isel; cydraddoldeb mewn addysg; gwaith y cyrff sy'n gyfrifol am ddatblygu trefol ac ardal a materion amgylcheddol. Ceir rhestr lawn o'r holl faterion a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn Atodiad A.

5. Pan fo Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymgynghori ynghylch materion penodol mae'r pwyllgorau rhanbarth wedi cymryd rhan drwy gynnal sioeau pen ffordd yn eu rhanbarthau. Yn ystod 1999/2000 cynhaliwyd dwy sioe ben ffordd. Roedd y gyntaf yn rhan o'r broses ymgynghorol ynghylch Amcan 1 ac fe'i cynhaliwyd ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Roedd yr ail yn rhan o ymgynghoriad y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch ei Strategaeth Datblygu Cynaliadwy.

## Cylch gwaith y Pwyllgor

6. Disgwylir i'r pwyllgorau rhanbarth gynghori'r Cynulliad ar faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, ar effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny ac ar waith y cyrff cyhoeddus yno.

## Blaenoriaethau

7. Mae agendâu'r Pwyllgorau'n adlewyrchu ei amcan i gael cydbwysedd rhwng y blaenoriaethau a nodir yn www.betterwales.com ac ymateb i faterion sydd o bwys i'r cymunedau a gynrychiolir gan yr Aelodau. Felly, roedd yr eitemau a ystyriwyd yn cynnwys cymysgedd o faterion strategol ac eitemau a oedd yn deillio o bryderon lleol.

## Materion a ystyriwyd

### *Economaidd*

8. Mae economi'r Canolbarth yn dibynnu i raddau helaeth ar ffermio a busnesau bach. Mae hyn yn golygu problemau megis prinder marchnadoedd, pellter o'r prif gyflenwyr ac adwerthwyr a phobl ifanc a thalentog yn gadael eu cynefin. Fodd bynnag, yr un yw'r problemau mewn rhannau eraill o Gymru – megis prinder sgiliau ac anawsterau trafnidiaeth a chyfathrebu.

9. Mae'r Pwyllgor yn ddyledus i Fforwm Partneriaeth y Canolbarth am y cyflwyniadau a gafodd ynghylch gwahanol agweddau ar waith y Bartneriaeth yn y Canolbarth. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried gwahanol strategaethau'r Bartneriaeth i wella economi'r Canolbarth, megis ei strategaeth ar drafnidiaeth gyfannol a'i Strategaeth Twristiaeth yn y Canolbarth. Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Bartneriaeth y Dwyrain ar ddogfen rhaglen sengl Amcan 2 a oedd yn canolbwyntio ar yr hyn y gallai cyrff gwahanol ei wneud wrth baratoi projectau ar gyfer gwneud cais am arian.

### *Iechyd*

10. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y gost o ddarparu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig gyda chymorth cyflwyniad gan Awdurdod Iechyd Dyfed-Powys ynghyd â nifer o sylwadau a dderbyniodd ar ôl iddo wahodd gwahanol gyrff am eu hymateb i'r mater. Credai'r Pwyllgor y dylid adolygu'r Fformiwla Dyrannu Adnoddau ar fyrder. Hefyd, pwysleisiodd y Pwyllgor fod yn rhaid symud ymlaen yn bwyllog â chyflwyno tele-feddygaeth. Credai y gallai hyn fod o fudd sylweddol i ardaloedd gwledig o ran gofal iechyd. Penderfynodd y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried yr effaith wahaniaethol y gallai polisïau ac ymarferiadau iechyd eu cael ar gyflenwi gofal iechyd mewn ardaloedd gwledig.

### *Gostwng Nifer y Troseddau*

11. Er nad oes gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb dros blismona, mae ganddo gyfrifoldeb i ostwng nifer y troseddau yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1988. Gwahoddwyd y ddau awdurdod heddlu sy'n gyfrifol am ardal y Pwyllgor Rhanbarth i roi gwybod i'r Pwyllgor am eu cynlluniau strategaeth lleol ar gyfer gostwng nifer y troseddau. Yn anffodus, methodd awdurdod heddlu Dyfed-Powys â bod yn bresennol ond cafodd y Pwyllgor drafodaeth fuddiol a diddorol iawn gyda Phrif Gwnstabl Heddlu'r Gogledd. Trafodwyd y gost ychwanegol o blismona mewn cymuned wledig, yr ymagwedd arloesol tuag at droseddwyr cyffuriau yn rhanbarth y Gogledd, a'r defnydd o dechnoleg newydd i olrhain troseddau. Teimlai'r Pwyllgor y byddai'n fuddiol pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn meithrin perthynas fwy clos gydag awdurdodau'r heddlu yng Nghymru.

***Ffermio***

12. Ffermio yw conglfaen economi'r Canolbarth ac roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r anawsterau a oedd yn wynebu'r cymunedau amaethyddol yn ystod y cyfnod hwn. Hoeliodd ei sylw ar Weithgor y Diwydiant Organig. a olynwyd erbyn hyn gan y Strategaeth Organig mewn perthynas â'r Canolbarth. Rhoddodd y Pwyllgor wahoddiad i nifer o gyrff gyflwyno'u sylwadau ar y Cynllun, gan gynnwys y cyrff amaethyddol, y defnyddwyr a'r adwerthwyr. Nododd y rhain nifer o faterion allweddol mewn perthynas â gosod safonau cynhyrchu, yr angen am un corff archwilio ac ardystio; yr angen i fod yn rhagweithiol wrth ledaenu arferion da a'r angen i ddatblygu gwell isadeiledd o'r cynhyrchwyr i'r rhai ar ddiwedd cadwyn y cynhyrchion organig.

***Trafnidiaeth***

13. Mae natur ddaearyddol y Canolbarth yn golygu bod sawl her benodol yn wynebu unrhyw ymdrech i ddatblygu polisi trafnidiaeth gyfannol. Cyflwynodd Gweithgor Partneriaeth y Canolbarth ei strategaeth i'r Pwyllgor; cafodd ei strwythuro er mwyn mynd i'r afael â thri phrif fater: cynhwysiant cymdeithasol – y broblem anodd mewn ardaloedd gwledig lle roedd bod â char neu gludiant cyfleus a rheolaidd arall eisoes yn dylanwadu ar ddewis, ffordd o fyw a chyfleoedd gwaith: anfantais economaidd – ffyrdd annigonol a chostau cludiant yn dylanwadu ar hyder mewn busnes a'r potensial ar gyfer buddsoddi; a'r effaith ar yr amgylchedd – yn enwedig effaith andwyol traffig mewn trefi a phentrefi bach.
14. Roedd sylwadau Pwyllgor Ymgynghorol y Defnyddwyr Rheilffyrdd ar y strategaeth yn adeiladol ac yn rhoi safbwynt y cwsmer mewn ffordd ddefnyddiol.

**Archwilio**

15. Fel rhan o'i ddyletswyddau mae'r Pwyllgor wedi archwilio nifer o gyrff parthed eu polisïau a'u strategaethau ar gyfer rhanbarth y Canolbarth. Mae hyn wedi arwain at lawer o gyflwyniadau diddorol am waith y y cyrff mewn nifer o feysydd amrywiol ac wedi nodi rhai themâu ac amcanion sy'n gyffredin iddynt. Yn Rhanbarth y Canolbarth mae gan y ddau barc cenedlaethol – Bannau Brycheiniog ac Eryri – ran bwysig i'w chwarae. Mae'r Pwyllgor wedi clywed gan **Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** am ei strategaeth ar gyfer y dyfodol.

16. Mae gan dwristiaeth ran bwysig i'w chwarae yn economi'r Canolbarth ac fe glywodd y Pwyllgor gyflwyniad positif ac ysbrydoledig gan gan Brif Weithredwr **Bwrdd Croeso Cymru**. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid cryfhau a datblygu cyfraniad twristiaeth i economi'r Canolbarth er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r diwydiant. Roedd y Pwyllgor yn falch i nodi'r gwaith a wneir gan Fwrdd Croeso Cymru i hybu partneriaethau ledled Cymru ac i wneud ysgolion a cholegau yn fwy ymwybodol o angen y diwydiant ymwelwyr am staff a rheolwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ac i safon uchel.

17. Mae amgylchedd byw'r Canolbarth yn sylfaen i lawer agwedd ar ei economi e.e. ffermio a thwristiaeth; felly, mae gan **Asiantaeth yr Amgylchedd** ran allweddol i'w chwarae yn y dyfodol. Adroddodd Asiantaeth yr Amgylchedd i'r Pwyllgor am ei waith yn y Canolbarth ac ym Mae Ceredigion. Roedd y Pwyllgor yn falch i nodi gwaith yr Asiantaeth mewn datblygu partneriaethau gyda chyrff fel Bwrdd Croeso Cymru ac awdurdodau lleol. Roed ei waith ar gynaladwyedd yn bwysig i anghenion economaidd y Canolbarth yn y dyfodol.

**18.** Roedd gan **Ddw^r Cymru/Welsh Water** raglen fuddsoddi fawr dros gyfnod o 5 mlynedd, a fyddai'n parhau i wella ansawdd y dw^r yfed a gwella'r broses o drin carthion. Eto, nododd y Pwyllgor fod llawer o waith Dw^r Cymru'n gyflenwol i waith asiantaethau eraill, ac anogodd bob un o'r asiantaethau hyn i ddatblygu partneriaethau clos ar gyfer cydweithio.

**Cyflwyniadau gan y cyhoedd**

19. Mae'r Pwyllgor yn bendant ei farn ynghylch caniatáu aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan yn ei gyfarfodydd. Mae'n credu y dylai'r cyfarfodydd fod yn lwyfan i aelodau o'r cyhoedd a chyrff lleol roi gwybod am fater neu broject y maent yn ymwneud â hwy yn ogystal â rhoi cyfle i'r Aelodau glywed am bryderon a chyflawniadau eu hetholwyr. Rhoddwyd sylw i amrywiaeth eang o bynciau a cheir rhestr lawn yn yr Atodiad.

**Rhaglen waith at y dyfodol**

20. Bydd y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd newydd yn ei gyfarfod nesaf a bydd y Cadeirydd, wrth ymgynghori â'r Aelodau eraill, yn datblygu'r rhaglen waith at y dyfodol. Fodd bynnag, bydd y cyfarfod cyntaf yn dal i ddefnyddio'r ymagwedd a fabwysiadwyd eisoes a bydd yn ystyried, ar y cyd â TEC y Canolbarth, y mater pwysig o ddatblygu sgiliau a diwallu anghenion hyfforddi pobl y Rhanbarth.

**Casgliad**

21. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth yn cyflawni dyletswydd pwysig wrth fod yn bont rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r bobl y mae’n eu cynrychioli yn eu cymdogaethau. Bydd angen iddo barhau i ddatblygu’r bont hon ac annog mwy o gyfranogiad yn ei gyfarfodydd. Un elfen allweddol yn hyn o beth yw’r angen i’r pwyllgorau rhanbarth fod â ffordd glir ac amlwg o gyflwyno’u sylwadau gerbron y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o broses y Cynulliad o ystyried polisïau. Mae angen ystyried hyn yn ofalus ac rwy’n ddiolchgar i’m cyd-gadeiryddion rhanbarth am eu cyfraniad i’r mater hwn sy’n dal i gael ei ystyried.

**Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

Mehefin 2000

**Atodiad A**

## Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth

### Crynodeb o’r Rhaglen Waith 1999/2000

Cadeirydd: Glyn Davies, Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru

| | | |
|---|---|---|
| 9 Gorffennaf 1999 | Llandrindod, Siambr y Cyngor | 1. Ethol Cadeirydd<br>2. Rhaglen Waith at y Dyfodol a dulliau gwaith<br>3. Pethau ymarferol |
| 17 Medi 1999<br><br>Roadshow | Ceredigion County Siambr y Cyngor, Aberaeron | Cyfarfod ar y cyd â’r Pwyllgor Datblygu Economaidd i ystyried arian Amcan 1 |

| | | |
|---|---|---|
| 1 Hydref 1999 | Canolfan Owain Glyndwr, Machynlleth | 1. Datblygu Economaidd – Blaenoriaethau ar gyfer y Canolbarth<br>2. Y gost o ddarparu Gwasanaethau Iechyd mewn Ardaloedd Gwledig |
| 3 Rhagfyr 1999 | Theatr Brycheiniog, Aberhonddu | 1. Ffermio Organig yn y Canolbarth<br>2. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| 4 Chwefror 2000<br><br>Sioe Ben Ffordd | Coleg Powys, Y Drenewydd | Ymgynghori ar Strategaeth Datblygu Cynaliadwy |
| 10 Mawrth 2000 | Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog | 1. Gostwng Nifer y Troseddau mewn Cymunedau Gwledig<br>2. Bwrdd Croeso Cymru |
| 7 Ebrill 2000 | Aberteifi | 1. Polisi Trafnidiaeth Gyfannol ar gyfer y Canolbarth<br>2. Asiantaeth yr Amgylchedd |
| 9 Mehefin 2000 | Y Gyfnewidfa Y^d, Y Trallwng | 1. Arian Amcan 2<br>2. Rhaglen Fuddsoddi Dw^r Cymru/ Welsh Water |

**Cyflwyniadau gan y Cyhoedd**

| | | |
|---|---|---|
| 1 Hydref 1999 | 1. Llandrindod – menter creu ffyniant<br>2. PPA (Cymru)<br>3. Yr Ymgyrch yn erbyn cais Tyrbin Gwynt Nant Carfan | Mr David Beswick<br><br>Ms Lynne Jones, Swyddog Gweithredol Rhanbarth<br><br>Julie MacDonnell, Countryside Care |

| | | |
|---|---|---|
| 3 Rhagfyr 1999 | 1. Awyrennau sy’n Hedfan yn Isel<br>2. Datblygu hen safleoedd ffarm yn ‘safleoedd maes brown’<br>3. Cymorth ar gyfer cynhyrchu bwyd organig a chynaliadwy | Mr Dixon/Mr a Mrs Woods<br><br>Mr John Hopkins<br><br>Dr Paul Benham, Canolfan Organig Primrose |
| 10 Mawrth 2000 | 1. Cydraddoldeb mewn Addysg<br><br>2. Gwaith 'Cyfle Ffestiniog'<br>3. Y Cylch/The Circuit | Iwan Morgan Williams a Llinos Lloyd Roberts – Cyngor Ysgol y Moelwyn.<br><br>Dylan Rhys Griffiths, Rheolwr Datblygu Trefol<br><br>Julie Turner |
| 7 Ebrill 2000 | 1. Gwella’r A470 yn ardal Ffestiniog<br>2. Gwella’r A470<br>3. Gwaith Cymdeithas Cyrff Gwirfoddol Powys (PAVO)<br>4. Menter Y Dref Farchnad | Bryn Williams, Cadeirydd Cyfle Ffestiniog<br><br>Gwyn Roberts, Clerc, Cyngor Cymuned Dolwyddelan<br><br>David Cooke, PAVO<br><br>Julian Beynon Lewis, Menter Aberteifi |
| 9 Mehefin 2000 | 1. Gwella Afon Gwy<br><br>2. Rhaglen Addysg yn benodol ar gyfer Tref Aberystwyth<br>3. Bio-danwyddau<br><br>4. Tyfu coed | Ian Lyndsay, Rheolwr Project<br><br>Mr Mike Underwood, Prif Weithredwr, Biognosis.<br><br>David Balfour, Prif Weithredwr, BSW Timber plc.<br><br>George Johnson, Cadeirydd, Cymdeithas y Tyfwyr Coed a Patrick Bordillon, Cyn-gadeirydd. |